**Yr Ail Gynulliad (10)**

**Dydd Mercher, 18 Mehefin 2003**

# Pleidleisiau A Thrafodion

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf

**2.21pm**
**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf.

**2.41pm**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
Atebwyd y 2 cwestiwn

**2.44pm**
**Dadl ar y Cynllun Datblygu Gwledig**
**NDM1504 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi â chymeradwyaeth fod y cynnydd a wnaed yn 2002-2003 o ran gweithredu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, sy'n cynnwys darparu ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol, coedwigo, Tir Mynydd ac, yn achos Dwyrain Cymru, prosesu a marchnata grantiau, Cyswllt Ffermio a mesurau i hyrwyddo gwaith datblygu gwledig ehangach.

*Cliciwch isod i weld Cynllun Datblygu Gwledig Cymru:*
*http://www.wales.gov.uk/subiagriculture/content/ruraldevplan/ruraldevplan-e.htm*

*DS. Nid yw'r ddogfen wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg gan ei bod mor hir.*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:

**(1),(5),(6) & (7)**
**(3) & (4)**
**(8) & (9)**

***Ni ddewiswyd Gwelliant 2.***

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu 'â chymeradwyaeth'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn llinell 1, dileu 'â chymeradwyaeth'.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn llinell 2, dileu 'sy'n cynnwys darparu' a rhoi 'ac yn galw am ddarpariaeth ddigonol' yn ei le.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn llinell 3, dileu 'Dwyrain Cymru' a rhoi 'y Dwyrain' yn ei le.

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn condemnio methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddwyn ymlaen y cynllun Tir Mynydd newydd a addawyd.'

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

''Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi mwy o arian ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol.'

**Gwelliant 7 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn condemnio methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud taliadau'r PAC mewn da bryd.'

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn derbyn bod band eang yn hanfodol bwysig i economi Cymru wledig, ond yn gresynu bod band eang mor araf yn cael ei gyflwyno yn yr ardaloedd gwledig.

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu strategaethau i gadw mwy o bobl ifanc yng Nghymru wledig.'

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:**
O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 47; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 8:**
O blaid 28; Ymatal0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 9:**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:**
O blaid 36; Ymatal 10; Yn erbyn 11; Cyfanswm 57
**Derbyniwyd y Cynnig**

**3.45pm**
**Dadl ar Gymru yn Ewrop**
NDM1505 Karen Sinclair (De Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cynnydd a welwyd o ran hybu proffil a dylanwad Cymru yn Ewrop;

2. Yn croesawu'r camau arwyddocaol a gymerwyd hyd yma i roi rhaglenni cyfredol Cronfeydd Strwythurol Ewrop ar waith yng Nghymru;

3. Yn cydnabod dylanwad holl bwysig y penderfyniad ynghylch ymuno â'r Ewro ar economi Cymru;

4. Yn cydnabod arwyddocâd ehangu'r UE o 15 i 25 o Aelod-Wladwriaethau a'r Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop a goblygiadau hynny i Gymru.

*Cliciwch isod i weld gwefan y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop. Ceir yno fanylion cyfansoddiad y Confensiwn a Threfniadau eraill:*
*http://european-convention.eu.int/organisation.asp?lang=EN*

*Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:*
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:

**(1),(4),(5),(9), (10),(11) & (12)**
**(2), (3), (7), (14), (15) & (16)**
**(6), (8) & (13)**

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 1, dileu 'Yn cydnabod y cynnydd a welwyd o ran', gan roi 'Yn cydnabod pwysigrwydd' yn ei le

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

'ond yn gresynu at yr ansicrwydd a achoswyd gan y ffordd anffodus y cafodd Canolfan Ewropeaidd Cymru ei chau.'

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu pwynt 2 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'2. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y Cynulliad i gwrdd â'i thargedau a rhoi gwybodaeth gywir am y swyddi a grewyd o dan Amcan 1'.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 2, dileu 'croesawu'r camau arwyddocaol a gymerwyd', gan roi 'gresynu at y ffaith nad oes camau arwyddocaol wedi'u cymryd'

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 3, dileu 'dylanwad holl bwysig y penderfyniad ynghylch ymuno â'r Ewro', gan roi 'y byddai ymuno â'r Ewro yn cael effaith andwyol'

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3 ar ôl 'economi Cymru':

'ac yn gresynu at ogor-droi Llywodraeth y DU o ran cynnal refferendwm'.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

'ond yn gresynu at y methiant i gyfeirio at ddiwydiannau craidd Cymru ym mhrofion economaidd Trysorlys y DU.'

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo fel y bo'n briodol:

'Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gymryd yr awenau o ran hybu manteision yr Ewro i Gymru.'

**Gwelliant 9 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 4, ar ôl 'Yn cydnabod', ychwanegu 'ac yn croesawu', a dileu popeth ar ôl 'Aelod-Wladwriaethau'

**Gwelliant 10 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn gresynu at Gonfensiwn Dyfodol Ewrop, sy'n tanseilio'n sylfaenol sofraniaeth y Deyrnas Unedig fel aelod-wladwriaeth, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i bwyso ar lywodraeth San Steffan am refferendwm ar y confensiwn.'

**Gwelliant 11 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i glustnodi pa rai o swyddogaethau'r Cynulliad y gallai'r Confensiwn yn Ewrop effeithio arnynt a chynnal Pôl yng Nghymru o dan Adran 36 o Ddeddf

Llywodraeth Cymru (1998) ar unrhyw swyddogaethau o'r fath a fydd wedi cael eu clustnodi.'

**Gwelliant 12 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cefnogi'r egwyddor o Undeb Ewropeaidd o aelod-wladwriaethau annibynnol.'

**Gwelliant 13 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i wneud yn glir beth yw ei safiad ar ddychwelyd cyllid strwythurol ar ôl 2006, a rhoi sicrwydd y bydd dadl ar y mater hwn mewn cyfarfod llawn."

**Gwelliant 14 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gydnabod nad yw'r cyfansoddiad drafft presennol yn rhoi digon o sylw i anghenion aelod-wladwriaethau bach a chenhedloedd nad ydynt yn wladwriaethau.

**Gwelliant 15 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i egluro ei safiad o ran diwygio'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd presennol.

**Gwelliant 16 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gwrthod unrhyw gamau i leihau nifer yr Aelodau Seneddol Ewrop sy'n cynrychioli Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 42; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:**
O blaid 10; Ymatal 11; Yn erbyn 35; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 8:**
O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 9:**
O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 45; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 10:**
O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 45; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 11:**
O blaid 11; Ymatal 10; Yn erbyn 35; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 12:**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 13:**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 14:**
O blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 15:**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 16:**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:**
O blaid 33; Ymatal 9; Yn erbyn 12; Cyfanswm 54
**Derbynwyd y Cynnig**

**5.00pm**
**Y Ddadl Fer - NDM1507 - Mark Isherwood (Gogledd Cymru) -** Fformiwla Cyllido Llywodraeth Leol i Gymru - Disodli Fformiwla Diffygiol gan Fformiwla Teg sy'n Seiliedig ar Anghenion holl Bobl Cymru.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.28pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 17 Mehefin 2003**

Memorandwm Cywiriadau - Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003 - LD2140
Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD2141
Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2142
Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2143
Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2144
The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis), the Feeding Stuffs (Enforcement) and The

Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 - Regulatory Appraisal - LD2145 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 17 Mehefin 2003**

LC704 - Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2146
LC705 - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesur Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2003 - LD2147